

Cofnodion Tasglu Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio – 21
Tachwedd, MS Teams


Yn bresennol:

Alison Kitchener	Llywodraeth Cymru
Angharad Owen	Network Rail
Anthony Rogers	ALI / Partneriaeth Natur Lleol Sir Benfro
Bob Griffiths	Cefnffyrdd
Carolyn Thomas (AS)	Aelod o'r Senedd Gogledd Cymru
Cath Shellswell	Plantlife
Clare Dinham	Buglife
Clare Flynn	Bumblebee Conservation Trust
Dan Rose	Staff Cymorth Aelod o'r Senedd
Elliot Waters	Cyngor Sir Fynwy / Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent
Emily Shaw	ALI / Partneriaeth Natur Lleol Bro Morgannwg
Emma Bonham	(CEFNFFYRDD)
Francis Gellatly	Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
Gemma Barron	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Hannah Jones	Cefnffyrdd
Iolo Lloyd	Cyfoeth Naturiol Cymru
James Darke	Network Rail
Jan Miller	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
Jon Walker	Prifysgol Abertawe
Julianne Quinlan	ALI Conwy
Kate Collins	
Kathleen Carroll	Llywodraeth Cymru
Laura Jones	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
Mannon Lewis	Cyfoeth Naturiol Cymru
Mark Cleaver	Cyngor Sir Fynwy
Mark Watson-Jones	Cefnffyrdd
Phil Sterling	Gwarchod Glöynnod Byw
Richard Dawson	Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU
Sean McHugh	Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Stacey Delbridge	Cyngor Sir Fynwy / Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent
Steve Rose	Bee Improvement and Bee Breeders' Association
Tim Birch	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt

1. Agorodd Kathleen Carroll y cyfarfod.

2. Philip Sterling (Gwarchod Glöynnod Byw/Butterfly Conservation) – Newid system mewn cynnal a chadw lleiniau ymyl ffyrdd ar gyfer bywyd gwyllt – manteision carbon ac arbedion costau

Ar hyn o bryd mae Dr Phil Sterling yn gweithio i'r elusen Gwarchod Glöynnod Byw yn y DU fel yr arweinydd ar Creu Safleoedd er Lles Glöynnod Byw. Bu'n brif gynghorydd ecolegol lywodraeth leol Dorset am 25 mlynedd. Yng nghyfarfod y Tasglu, ym mis Mawrth 2021, rhannodd ei brofiad o gynlluniau creu cynefinoedd ar raddfa fawr a rheoli rhaglen cynnal a chadw ymyl priffyrdd yr awdurdod. Gofynnwyd i Phil ddod yn ôl i'r cyfarfod hwn i archwilio hyn ymhellach.

Dolen i lawrlwytho'r cyflwyniad:  [Action Plan for Pollinators Taskforce - cost savings on road verges 22nov21 Phil Sterling.pptx](#)

Yn ystod y cyflwyniad, esboniodd Phil fod cael ychydig o uwchbridd ar ymylon yn arwain at briddoedd isel mewn maetholion, sy'n darparu is-haenau da ar gyfer blodau gwyllt.

Trafodwyd cael gwared ar uwchbridd yn ehangach ar draws y rhwydwaith ffyrdd. Efallai na fyddai hyn yn ymarferol ar raddfa fawr ond gallai fod yn bosibl ar safle, ble mae peiriannau ar gael.

Atgoffodd Jan ei bod hi'n bwysig cynnwys planhigion bwyd larfaol wrth blannu ar gyfer pryfed peillio. Gofynnodd Jan am ddolen i restr awgrymedig y Tasglu o blanhigion ar gyfer pryfed peillio. Dolen:

<https://www.biodiversitywales.org.uk/Content/Upload/Bee-friendly-plant-list-CY.pdf> / <https://www.biodiversitywales.org.uk/Content/Upload/Bee-friendly-plant-list-ENG.pdf>

Yn sgil sleid 18 cyflwyniad Phil, cawsom drafodaeth ar y cyfraniad y mae glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau'n ei ddarparu ar gyfer storio carbon. Rhoddodd Cath Shellswell fanylion y papurau canlynol hefyd:

- Lange, M., Eisenhauer, N., Sierra, C. et al. Plant diversity increases soil microbial activity and soil carbon storage. Nature Communications 6, 6707 (2015). <https://doi.org/10.1038/ncomms7707>
- Prommer, J, Walker, TWN, Wanek, W, et al (2020) Increased microbial growth, biomass, and turnover drive soil organic carbon accumulation at higher plant diversity. Global Change Biology. 2020 ; 26: 669– 681. <https://doi.org/10.1111/gcb.14777>

3. Stacey Delbridge (Cyngor Sir Fynwy) – Gwent sy'n Denu Pryfed Peillio, Prosiect Natur Wyllt

Rhoddodd Stacey yr wybodaeth ddiweddaraf am Natur Wyllt. Ar y cychwyn, ariannodd Llywodraeth Cymru brosiect peilot, [Natur Wyllt](#), i godi ymwybyddiaeth pobl Trefynwy ac ymgysylltu â hwy ynghylch yr angen i helpu pob math o bryfed peillio. Ehangwyd y prosiect ar draws y sir yn 2020/21 gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae'r prosiect yn adeiladu ar y llwyddiant a gafwyd hyd yn hyn ac yn ehangu ar draws awdurdodau

Gwent fel rhan o ffrwd gwaith Gwent sy'n Denu Pryfed Peillio [Grid Gwyrdd Gwent](#) a Chynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles Llywodraeth Cymru.

Yn ei chyflwyniad, esboniodd Stacey mai nod y prosiect yw sbarduno newid ymddygiad gan arwain at gamau gweithredu lleol eang i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn pryfed peillio.

Un o'u nodau yw rhannu gwersi ac arferion gorau drwy fforwm. Roedd hwn yn nod a rennir gan is-grŵp glaswelltir ymyl ffyrdd/amwynderau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio. Cytunwyd y byddai'n syniad da i'r is-grŵp a Grid Gwyrdd Gwent, gydweithio i gyflawni'r nod cyffredin hwn. Cynhelir cyfarfod cyntaf y grŵp rheoli glaswelltir hwn ar 10 Rhagfyr 2021.

Mae cyflwyniad Stacey yn amgaeedig.

4. Cath Shellswell (Rheolwr Magnificent Meadows Cymru, Plantlife) - Magnificent Meadows

Nod prosiect Magnificent Meadows Plantlife, a ariennir drwy'r Cynllun Galluogi Adnoddau Dynol a Lles (haf 2019-2022), yw adfer glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau ar gyfer bywyd gwyllt a phobl. Mae Plantlife yn gweithio gyda nifer o bartneriaid, yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Ganolfan ar gyfer Gofal Iechyd Cynaliadwy, i gyflawni'r nod hwn.

Mae'r prosiect wedi'i rannu'n dri phrif faes, Meadow Makers, Meadow Skills a Meadows for Wellbeing. Roedd cyflwyniad Cath (amgaeedig) yn amlinellu rhai o gyflawniadau'r prosiect. Roedd hyn yn cynnwys creu sawl safle newydd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a grwpiau cymunedol. Maent yn datblygu [hyb gweirgloddiau](#). Mae safle prawf yn fyw ar hyn o bryd. Ar ôl profi, mae disgwyl i hyb gweirgloddiau dwyieithog gael ei lansio yng Ngwanwyn 2022. Mae nifer o safleoedd glaswelltir cyfoethog eu rhywogaethau wedi'u nodi drwy'r wybodaeth a adroddir drwy [Ap Waxcap](#). Mae eu gweithdai wedi bod yn llwyddiannus gyda nifer dda yn bresennol. Bydd mwy o weithdai ar greu gweirgloddiau, adnabod planhigion, monitro/arolygu'n cael eu cynnal y flwyddyn nesaf. Gallwch dderbyn diweddariadau gan y prosiect hwn drwy'r cylchlythyr: [cofrestru ar gyfer cylchlythyr Magnificent Meadows Cymru \(mailchi.mp\)](#)

Roedd gan Jan ddiddordeb arbennig yn agwedd lles y prosiect a gweithio gydag ysbytai. Mae prosiect Caru Natur Cymru yr Ardd Fotaneg Genedlaethol wedi bod yn gweithio ag Ymddiriedolaethau Gofal Iechyd hefyd. Gwnaed cais am gyflwyniad pellach ar Caru Natur Cymru yng nghyfarfod nesaf y Tasglu.

Dywedodd Alison fod Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cefnogi gwaith i gynyddu pryfed peillio, newid arferion lladd gwair a chreu lleoedd ar gyfer lleoliadau gofal iechyd natur. Gofynnwyd i Alison hefyd a fyddai hi'n fodlon gwneud cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf.

Mae cyllid grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn cael ei ddosbarthu drwy bartneriaid yn cynnwys Cadwch Gymru'n Daclus a Chronfa Dreftadaeth y Loteri.

I gael rhagor o wybodaeth am gyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, gweler:
[Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Cadwch Gymru'n Daclus](#)
[Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Cronfa Dreftadaeth y Loteri](#)

5. Carolyn Thomas (MS) – Hyrwyddwr bioamrywiaeth ar leiniau glas a glaswelltir amwynder

Cyflwynodd Carolyn Thomas (AS) ei hun i'r Tasglu. Mae Carolyn yn Aelod o'r Senedd newydd dros Ogledd Cymru ac mae'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd wedi gofyn iddi hyrwyddo rheolaeth lleiniau glas a manau amwynder ar gyfer bioamrywiaeth. Mae profiad blaenorol Carolyn yn cynnwys gweithio gyda thimau bioamrywiaeth a thrafnidiaeth a Gwasanaethau Stryd mewn llywodraeth leol.

Mae wedi cyfarfod cynrychiolwyr o Bartneriaethau Natur Lleol, Cyfarwyddwyr Amgylcheddol Awdurdodau Lleol ac mae'n bwriadu cyfarfod Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol.

6. Iolo Lloyd (Cyfoeth Naturiol Cymru) Pryfed Peillio – Astudiaeth Achos ar Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru

Cyflwynodd Iolo ganfyddiadau gwaith arolwg pryfed peillio infertebratau a gynhaliwyd yn 2020 yng Nghoedwig Hafren, Sir Drefaldwyn. Mae copi o gyflwyniad Iolo ac adroddiad yr astudiaeth hon yn amgaeedig.

Dywedodd Clare Dinham a Jon fod ganddynt ddiddordeb clywed sut mae'r gwaith hwn yn datblygu a sut mae'n llywio penderfyniadau rheoli coetiroedd. Dywedodd Clare y byddai'n croesawu gweithio gyda Iolo ar ryw adeg yn y dyfodol ac y byddai gan y Bumblebee Conservation Trust ddiddordeb hefyd mae'n debyg.

Nid oedd Richard wedi gweld yr adroddiad gan ei fod wedi ymuno â'r Tasglu ar ôl iddo gael ei rannu yn y Gwanwyn. Gofynnodd i'r Tasglu ailrannu'r adroddiad.

7. Diweddariadau

Steve Rose (Bee Improvement and Bee Breeders' Association, BIBBA)

Dywedodd Steve wrthym fod Gweriniaeth Iwerddon wedi cyflwyno bil sef '[Protection of the Native Irish Honey Bee Bill 2021](#)' i'w drafod yn y Seanad (Uwch Dŷ Deddfwrfa Iwerddon). Roedd y Bil Gwyddelig hwn yn caniatáu Deddf i atal mewnfario i Weriniaeth Iwerddon unrhyw wenyn mêl ac eithrio 'gwenynen fêl frodorol Iwerddon' a ddiffinnir yn y Bil fel Gwenynen Fêl Dywyll Ewropeaidd (*Apis mellifera mellifera*).

Kathleen Carroll (Llywodraeth Cymru – Tirweddau, Natur a Choedwigaeth)

- **Is-grŵp Addysg a Gwyddor Dinasyddion**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr Is-grŵp Addysg a Gwyddor Dinasyddion ym mis Mai 2021. Cafodd un o aelodau'r is-grŵp y dasg o lunio rhestr ddrafft o brosiectau gwyddor dinasyddion a fyddai'n addas i beillwyr ac y gellid eu defnyddio mewn diagram neu siart llif syml. Roedd aelod arall yn archwilio'r posibilrwydd o gael adnoddau [X-Polli:Nation](#) ar gael yn Gymraeg.

- **Is-grŵp Plaladdwyr**

Mae crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y drafft diwygiedig o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaladdwyr wedi'i gyhoeddi. Dyma'r ddolen:

<https://www.gov.uk/government/consultations/sustainable-use-of-pesticides-draft-national-action-plan/outcome/summary-of-responses>

Yng nghyfarfod yr is-grŵp ym mis Ebrill 2021, rhoddodd Sarah Jones (Dŵr Cymru) gyflwyniad i'r gwaith o ddatblygu [PestSmart](#). Eglurodd Sarah mai man cychwyn y rhaglen oedd cael pobl i ddeall nad oes rhaid defnyddio plaladdwyr - bod opsiynau eraill ar gael. Er nad oedd Dŵr Cymru o'r farn mai ei rôl yw dweud wrth bobl am beidio â defnyddio plaladdwyr, mae'n barod i gyfeirio pobl at sefydliadau a deunyddiau addysg eraill sy'n gwneud hynny a rhoi gwybodaeth am yr opsiynau heblaw plaladdwyr.

Gofynnwyd i aelodau'r is-grŵp ystyried y deunydd PestSmart pan gaiff ei lansio a gweld a oes modd iddynt gyfrannu ato.

- **Rhyddhau colomennod a gloynnod byw mewn angladdau a digwyddiadau dathlu**

Ym mis Mehefin, anfonwyd e-bost i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ofyn a oedd modd i'w haelodau atal gloynnod byw rhag cael eu defnyddio mewn angladdau neu seremonïau eraill.

- **Cynllun Gwenyn Iach 2030 – Cynllun Gweithredu**

Cafodd y [Cynllun Gwenyn Iach 2030](#) ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2020. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Defra, APHA a rhanddeiliaid (gan gynnwys Cymdeithas Gwenynwyr Cymru), i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig. Cyhoeddwyd y [Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynllun Gwenyn Iach 2030](#) ym mis Hydref 2021. Mae'n nodi'r hyn fydd gwenynwyr, ffermwyr gwenyn, cymdeithasau gwenyn a'r llywodraeth yn ei wneud i ddiogelu a chynyddu poblogaethau gwenyn.

8. Y Cyfarfod Nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn rhithwir yng ngwanwyn 2022. Bydd arolwg Doodle ar gyfer dyddiadau posibl yn cael ei ddsbarthu gan Kathleen Carroll.